

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 22 TACHWEDD 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

JPD Blundell
RM Granville
JC Spanswick
CA Webster

NA Burnett
MJ Kearns
RME Stirman
AJ Williams

SK Dendy
DRW Lewis
MC Voisey

DK Edwards
JC Radcliffe
KJ Watts

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, JE Lewis a/ac A Williams

Swyddogion:

Rhodri Davies
Mark Galvin
Rod Jones
Michael Pitman

Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Uwch Cyfreithiwr
Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd

188. YMDDIHEURIADAU AM FOD YN ABSENNOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol gan y Cynghorwyr R Collins, JE Lewis ac Alex Williams

189. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Nododd y Cynghorydd C Webster fuddiant personol yn Eitem 8 yr agenda gan ei bod hi'n arfer gwirfoddoli i'r SSAFA.

Nododd y Cynghorydd JP Blundell fuddiant personol yn Eitem 10 yr agenda gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Trelales.

190. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cadarnhau dydd Mercher 02 Ionawr 2019 ar gyfer unrhyw archwiliadau safle arfaethedig sy'n codi yn ystod y cyfarfod, neu sy'n cael eu pennu gan y Cadeirydd cyn dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Nodyn: Yng ngoleuni'r presenoldeb isel yn ymweliadau safle'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, anogodd y Cadeirydd holl aelodau'r pwyllgor i wneud pob ymdrech i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath, gan y byddai hyn yn helpu aelodau i ddeall y safle yn well a fydd yn eu helpu mewn unrhyw ddadl sy'n dilyn y cais pan gaiff ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod y pwyllgor.

191. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018 fel cofnod gwir a chywir.

192. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd siaradwyr cyhoeddus.

193. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu cynnwys.

194. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi crynodeb o Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

195. P/18/711/FUL – ADEILAD MORWROL, COSY CORNER, PORTHCAWL

PENDERFYNWYD: (1) O ystyried y cais canlynol, bydd yr ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb adran 106 i:

(a) Ddarparu cyfraniad ariannol o £8,000 i ariannu newid i orchmynion traffig cyfreithiol ar driongl parcio'r Rhodfa.

Cynnig

Defnydd cymysg o ganolfan forwrol sy'n cynnwys prif adeilad, caffi/bistro/bar gwin / micro-fragdy, swyddfeydd ystafell werdd, mannau allanol, mannau llwytho a dadlwytho, amffitheatr/awditoriwm, cabanau cadet môr dros dro / cabanau symudol y swyddfa adeiladu a byrddau hysbysu dros dro arfaethedig a gwaith cysylltiedig

(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad sy'n rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad uchod, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn ei adroddiad.

196. P/18/518/FUL - PLOT 65 FFORDD DERI DUFFRYN, PENCOED

PENDERFYNWYD: Bod y cais canlynol yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

Cynnig

Math o dŷ annedd wedi'i ddiwygio.

197. P/18/564/OUT - GARD D BROADLANDS HOUSE, HEOL BLANDY, BROADLANDS

PENDERFYNWYD: (1) O ystyried y cais canlynol, bydd yr ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb adran 106 i:

(a) Ddarparu cyfraniad ariannol o £3,117 at ddarparu offer chwarae plant a chyfleusterau chwaraeon y tu allan.

Cynnig

Datblygiad preswyl ar gyfer 3 annedd wedi'u hadeiladu o'r newydd.

(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad sy'n rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad uchod, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn ei adroddiad.

198. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau fel y manylir arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, ers ei adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

(2) Bod yr Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru i ddod i benderfyniad ynghylch yr Apeliadau canlynol wedi dweud eu bod yn cael eu gwrthod:-

<u>Rhif Cod</u>	<u>Pwnc yr Apeliadau</u>
D/18/3212252 (1839)	Codi ffens uchel 1.8m ar y wal derfyn i ochr eiddo 43 Tŷ Gwyn Drive Pen-y-bont ar Ogwr

A/18/3207624 (1836)	Cais amlinellol ar gyfer annedd dau lawr yn gysylltiedig â 15 Elm Crescent Pen-y-bont ar Ogwr
---------------------	---

(3) Nodi bod yr apelydd wedi tynnu'r apêl ganlynol yn ôl.

<u>Rhif Cod</u>	<u>Pwnc yr Apêl</u>
X/18/3202858	Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd presennol o dir ac adeiladau fel canolfan nwyeddio (defnyddio dosbarth b2) Ystad Ddiwydiannol Newton Down, Tythegston Court.

199. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (APR) 2017-2018

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Grŵp adroddiad ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018 (APR), a gwblhawyd a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru, a'i gyflwyno gerbron yr Aelodau er gwybodaeth.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill i 31 Mawrth 2018.

Dywedodd er bod nifer y staff cynllunio wedi lleihau bron i hanner yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer y ceisiadau cynllunio, yn arbennig yng nghyswllt cynlluniau mawr, wedi cynyddu ychydig. Tynnwyd sylw at rai o bwyntiau allweddol yr APR yn 3.4 yr adroddiad.

Esboniodd hefyd, o ran lefelau boddhad cwsmeriaid, fod 2018 yn adlewyrchu bod y ganran wedi gostwng i 50% o 74% (yn 2015). Roedd yn credu bod hyn yn cael ei briodoli i'r gyfradd ymateb isel o 14%. Darparwyd rhagor o fanylion am y ffigurau hyn yn yr adroddiad APR llawn, a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad cwrmpasu.

Cwblhaodd y Rheolwr Datblygu Grŵp ei gyflwyniad, drwy hysbysu bod y tîm yn ystyried ffyrdd o wella ei brosesau ymgysylltu â chwsmeriaid gyda'r bwriad o edrych ar ffyrdd o wella cyfraddau boddhad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

200. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018 (AMR) AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2006-2021

Darparodd y Rheolwr Datblygu Grŵp adroddiad ar ganfyddiadau Adroddiad Monitro Blyneddol Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 (Atodiad 1 i'r adroddiad). Nododd mai nod yr AMR yw asesu i ba raddau mae Strategaeth a Pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni.

Drwy gefndir, dywedodd fod gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i lunio AMR. Roedd yn rhaid cyflwyno AMR 2018 i Lywodraeth Cymru cyn 31 Hydref 2018, a chyrrhaeddwyd y targed hwn oherwydd iddo gael ei gyflwyno ar 30 Hydref 2018.

Aeth yn ei flaen i nodi mai prif nod yr AMR yw asesu i ba raddau y mae Strategaeth a Pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Roedd gan yr AMR ddwy rôl sylfaenol, yn gyntaf, ystyried p'un ai a yw'r polisïau a nodwyd yn y broses fonitro yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, ac yn ail, ystyried y Cynllun yn ei gyfarwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd i benderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun.

Amlinellodd adran nesaf yr adroddiad bod perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fonitro drwy gyfres o nodau a dangosyddion fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.

Cadarnhaodd baragraff 4.3 yr adroddiad ar ffurf pwyntiau bwled, fod Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol a Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi beth y mae'n rhaid i'r AMR ei gynnwys, tra'r oedd paragraff 4.4. yn nodi bod trosolwg o Ddata Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer pedwerydd cyfnod yr AMR yn rhoi cipolwg diddorol o'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol dros y 12 mis diwethaf. Nodwyd manylion canfyddiadau allweddol y rhain yn rhan hon yr adroddiad.

Aeth y Rheolwr Datblygu Grŵp yn ei flaen i gadarnhau bod Cynllun Datblygu Lleol newydd eisoes ar y gweill.

Cwblhaodd ei gyflwyniad drwy rannu Casgliadau a Goblygiadau Ariannol yr adroddiad ag aelodau.

Yn olaf, atebodd gwestiynau gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

201. LOG HYFFORDDIANT

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer y sesiynau hyfforddi Rheoli Datblygu fel y nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar gyfer y misoedd nesaf ar faterion allweddol yng nghyswllt meysydd cynllunio gwasanaeth penodol ac ati.

202. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:55